

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad Archwilio: 14 – 18 Medi 2015

Dyddiad yr Ymweliad Dilynol: 22 – 23 Awst 2018

(*) Ni chafodd y gwasanaeth bwyd anifeiliaid ei gynnwys yn yr archwiliad gwreiddiol. Cyflwynwyd model cyflenwi bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Allwedd Statws

	Wedi'i gwblhau
	Cynnydd da
	Cynnydd cyfyngedig
	Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
3.23 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael, a rhoi esboniad dros unrhyw amrywiaethau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1]			Roedd Cynllun Gwasanaeth 2018/19 wedi'i ddrافتio yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i raddau helaeth	Diwygio'r asesiad o adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael i gynnwys dadansoddiad ar draws gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau. Sicrhau bod yr holl amrywiadau yn cael eu nodi a'u hesbonio yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn ymwneud ag ymyriadau safonau bwyd, hylendid bwyd a samplau pysgod cregyn, sefydliadau â sgôr hylendid bwyd categori E, arolygiadau heb sgôr a gwiriadau cydymffurfiaeth y cynllun sgorio hylendid bwyd. Sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>4.6 (i) Sicrhau bod yr holl ddogfennau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag mae newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]</p>		<p>Mae'r gweithdrefnau canlynol yn hwyr ar gyfer adolygiad a byddant yn cael eu cwblhau cyn mis Mawrth 2017.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithdrefn Cronfa Ddata Gywir • Polisi Rheoleiddio a Gorfodi Tai • Cadw ac Atafael • EPN <p>Mae pob gweithdrefn arall eisoes wedi'u hadolygu neu fe fyddant yn cael eu hadolygu yn unol â'r cynllun adolygu gweithdrefnau.</p>	<p>Mae gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau a'u rhestru ar gynllun adolygu dogfennau.</p> <p>Mae system ar gyfer rheoli dogfennau wedi'i chyflwyno sy'n cynhyrchu adroddiad adolygu gweithdrefnau ac e-byst atgoffa pan fo angen adolygu gweithdrefn benodol.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
5.10 (i) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4]			<p>Mae dau swyddog gorfodi ychwanegol wedi cwblhau'r hyfforddiant HACCP tri diwrnod o hyd.</p> <p>Mae swyddogion wedi bodloni gofynion sylfaenol y Cod mewn perthynas â hyfforddiant DPP.</p>	Wedi'i gwblhau.
5.10 (ii) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau eraill ar gyfer swyddogion safonau bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5]			Cedwir cofnodion o gymwysterau pob swyddog.	Wedi'i gwblhau.
6.8 (i) Sicrhau bod offer monitro tymheredd yn cael eu graddnodi'n aml a diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi offer mesur tymheredd i gynnwys goddefiadau yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 6.2]			Gweithdrefn wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith. Cofnodion graddnodi wedi'u cynnal yn unol â'r weithdrefn.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.23 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau sefydliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]</p>		<p>Mae 99 o fusnesau dal i aros am Strategaeth Orfodi Amgen (AES) o 2015/2016 sydd wedi'i rhaglennu'n rhan o'r cynllun ymyrryd ar gyfer 16-17.</p> <p>Mae'r gofyniad i gynnal arolygiadau busnes newydd o fewn 28 diwrnod yn parhau i fod yn her i'r tîm o ystyried natur dymhorol yr ardal sy'n arwain at gyfnodau gwaith prysur iawn yn ystod rhai misoedd o'r flwyddyn. Pan nad yw'n bosibl arolygu busnes o fewn 28 diwrnod, bydd nodiadau ffeil electronig yn cael eu llunio i gyfrif am yr oedi.</p>	<p>Gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr ymyriadau hwyr a sefydliadau heb sgôr.</p>	<p>Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.23 (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2]</p>		<p>Adolygu'r weithdrefn ymyrryd i gynnwys y broses ar gyfer arolygu sefydliadau cymeradwy.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiad o ffeiliau 'Safleoedd Cymeradwy' wedi'i gynllunio ar gyfer 2016/17.</p> <p>Mae ffeiliau safleoedd cymeradwy wrthi'n cael eu trosglwyddo i ffeiliau electronig.</p>	<p>Gwelliannau i'r broses o gymeradwyo safleoedd bwyd mewn modd amserol.</p> <p>Peth tystiolaeth o gofnodi rhesymau dros ddiraddio sgoriau risg.</p> <p>Heb brofi amseroldeb ailymweliad.</p>	<p>Sicrhau bod y sgôr risg a gyflwynwyd yn adlewyrchu'n gyson arsylwadau'r arolygiad ac y dilynir y broses gywir ar ôl cael y ffurflenni cofrestru.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.23 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol; cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] (Hylendid Bwyd)</p>		<p>Defnyddir ffurflen arolygu safonol ar gyfer pob safle a arolygir, fodd bynnag rhoddir ystyriaeth i'r gwaith o ddatblygu Ffurflen Ymyrraeth Gweithgynhyrchwyr neu ffurflenni ymyrraeth 'Penodol i'r Safle' eraill.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiad o ffeiliau 'Safleoedd Cymeradwy' wedi'i gynllunio ar gyfer 2016/17.</p> <p>Adolygir y polisi gorfodi a chyfathrebir y newidiadau i'r tîm. Bydd gwaith monitro mewnol yn cynnwys monitro camau uwchgyfeirio priodol o ran gorfodi a'u trafod mewn cyfarfodydd un i un.</p>	<p>Gwelliannau o ran asesiadau croeshalogi, asesiadau Hyfforddiant hylendid bwyd a chymryd camau gorfodi priodol. Gwelliannau o ran asesiadau HACCP safleoedd cymeradwy a hylendid personol.</p>	<p>Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â HACCP (safleoedd nad ydynt wedi'u cymeradwyo), trafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd a chynnal gwiriadau ar farciau adnabod ar fwydydd sy'n cael eu mewnforio.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.23 (iv) Diwygio ei weithdrefn ar gyfer AES Hylendid Bwyd a gweithredu'n llawn ei weithdrefnau cofnodedig mewn perthynas ag arolygiadau ac ailymweliadau â safleoedd bwyd. [Y Safon – 7.4]		Mae ymweliadau AES ar gyfer safonau bwyd wedi'u dyrannu i'n Swyddog Diogelwch Bwyd eleni, sy'n cynnwys cwblhau rhan safonau bwyd y ffurflen ymyrraeth.	Y weithdrefn wedi'i diwygio.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.23 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad Hylendid Bwyd yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]</p>		<p>Cyfathrebu'r ffaith ei bod yn ofynnol i swyddogion lunio cofnodion ddigon manwl o arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiadau drwy gyfarfodydd tîm, cyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad, a chynnal gweithgareddau monitro mewnol rheolaidd i ddilysu cydymffurfiaeth.</p>	<p>Gwelliannau o ran cofnodi asesiadau croeshalogi, asesiadau Hyfforddiant hylendid bwyd, cymryd camau gorfodi priodol a chofnodi maint a graddfa gweithrediadau busnes.</p> <p>Gwelliannau i'r arfer o gadw cofnodion a'r defnydd o gymhorthion cof priodol ar gyfer safleoedd cymeradwy a'r gwaith o gofnodi asesiadau HACCP, gwiriadau hylendid personol, ystod cynhyrchion ac asesiadau hyfforddiant hylendid bwyd.</p> <p>Cofnodion yn ymwneud â gweithgarwch yr AES heb eu profi.</p>	<p>Sicrhau bod arsylwadau yn cael eu cofnodi'n gyson mewn cysylltiad ag asesiadau HACCP, trafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd, gwiriadau ar farciau adnabod a bwyd wedi'i fewnforio, a manylion cyflenwyr.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.40 (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amllder sy'n cyfateb i'r hyn a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]		<p>Bydd safleoedd â sgôr 'B', sy'n disgwyl arolygiad neu'n hwyr yn cael un, yn cael eu harolygu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>O 2017-18, bydd y rhaglen arolygu yn seiliedig ar y dyddiad cynharaf y dylid cyflawni arolygiad naill ai ar gyfer Safonau Bwyd neu Hylendid Bwyd.</p> <p>Caiff y gofynion hyn eu monitro drwy gyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad, a gwaith monitro mewnol rheolaidd i ddilysu cydymffurfiaeth.</p>	<p>Gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymyriadau hwyr.</p> <p>Nifer y safleoedd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen wedi lleihau i ddim.</p>	Sicrhau bod pob busnes yn derbyn ymyriad priodol ar yr amllder cywir.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.40 (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd a chofrestru sefydliadau yn unol â deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]		Bydd y gofynion hyn yn cael eu cyfathrebu drwy Gyfarfodydd Tîm, cyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad, a gwaith monitro mewnol rheolaidd i ddilysu cydymffurfiaeth.	Gwelliannau mewn sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau ac mewn arolygiadau yn cael eu cynnal heb roi rhybudd ymlaen llaw.	Sicrhau bod ailymweliadau a phenderfyniadau dilynol yn gyson â chanfyddiadau.
7.40 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol ar gyfer Safonau Bwyd [Y Safon – 7.3]		Caiff y gofynion hyn eu cyfathrebu drwy gyfarfodydd tîm, cyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad, a gwaith monitro mewnol rheolaidd er mwyn dilysu cydymffurfiaeth.	Gwelliannau mewn asesiadau cyflwyno, asesiadau trefniadau tynnu yn ôl / galw yn ôl ac asesiadau systemau rheoli ansawdd.	Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â labelu bwyd, cyfansoddiad bwyd a'r gallu i olrhain bwyd.
7.40 (iv) Sicrhau bod y weithdrefn AES gofnodedig ar gyfer Safonau Bwyd yn adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer. [Y Safon – 7.4]			Y weithdrefn wedi'i diwygio.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.40 (v) Sicrhau bod arsylwadau a/neu ddata a gynhyrchir yn ystod ymyriad/arolygiad Safonau Bwyd yn cael eu cofnodi'n brydlon i atal colli gwybodaeth berthnasol, a bod pob cofnod o ymyriadau yn cael eu storio mewn ffordd fel y gellir eu defnyddio eto. [Y Safon – 7.5]			Gwelliannau o ran cofnodi ac adfer nodiadau arolygiadau, cofnodi arolygiadau dirybudd mewn adroddiadau arolygu a chofnodi gweithgareddau bwyd a gyflawnir.	Sicrhau bod arolygiadau dirybudd yn cael eu cofnodi ar y cymorth cof a bod asesiadau'n gyson yn ymdrin â gofynion labelu bwyd, cyfansoddiad bwyd a'r gallu i olrhain bwyd.
8.9 (i) Datblygu ymhellach ei weithdrefn gofnodedig mewn perthynas â chwynion am sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid; a, diwygio'r weithdrefn i gynnwys manylion am ei ddull tuag at gwynion yn ymwneud â bwyd yn tarddu o aelod-wladwriaethau eraill yr UE neu drydydd gwledydd. [Y Safon – 8.1]		Trefnir bod y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu yn ystod 16-17 ac y bydd yn cael ei diweddarau i gynnwys y dull tuag at gwynion sy'n deillio o aelod-wladwriaethau eraill yr UE.	Y weithdrefn wedi'i diwygio.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
8.9 (ii) Sicrhau bod cwynion am hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu hymchwilio yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod; gan gynnwys ymateb o fewn targedau amser, a chyfathrebu â phawb sy'n gysylltiedig â'r cwynion. [Y Safon – 8.2]		Caiff y gofynion hyn eu cyfathrebu drwy gyfarfodydd tîm, cyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad, a gwaith monitro mewnol rheolaidd er mwyn dilysu cydymffurfiaeth.	Ymchwilio i gwynion hylendid bwyd fel sydd angen i'w datrys a rhoi gwybod i'r achwynydd am y canlyniad. Gwelliannau mewn cwynion safonau bwyd yn cael eu hymchwilio'n briodol; wrthi'n cysylltu â chyflenwyr ac awdurdodau lleol eraill; a rhoi gwybod i bawb â diddordeb am y canlyniad.	Sicrhau bod cwynion safonau bwyd yn cael eu hymchwilio'n gyson heb oedi.
13.7 (i) Diwygio ei Gynllun Rheoli Achosion i gynnwys gwybodaeth leol. [Y Safon – 13.1]		Manylion Cyswllt Lleol i'w diweddarau yn y Cynllun.	Cynllun Achosion wedi'i ddiwygio.	Wedi'i gwblhau.
13.7 (ii) Diwygio a gweithredu'n llawn ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus i gynnwys y dull ar gyfer croesgyfeirio hysbysiadau cyffredin i nodi'r tarddiad a chynnal ymweliadau dilynol â sefydliadau bwyd. [Y Safon – 13.2]		Bwriedir adolygu'r weithdrefn hon yn ystod 16-17 a bydd yn cael ei diweddarau i groesgyfeirio sut mae'r tîm yn cyfathrebu â sefydliadau bwyd a allai fod wedi'u heffeithio.	Gweithdrefn wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
13.7 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion yn ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 13.3]		Datblygu holiadur 'Gwenwyn Bwyd Honedig' y bydd modd ei lenwi neu ei anfon drwy e-bost i gwsmeriaid ei lenwi.	Cofnodion ar gael.	Wedi'i gwblhau.
14.5 (i) Datblygu ymhellach y weithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i rybuddion bwyd. Bydd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau ar gyfer derbyn rhybuddion bwyd y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1]			Mae'r weithdrefn wedi'i diweddarau.	Wedi'i gwblhau.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
15.19 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer y defnydd o'r holl ddewisiadau gorfodi bwyd sydd ar gael a chyfeirio at y Cynlluniau Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. [Y Safon – 15.1]		<p>Adolygu'r Polisi Gorfodi yn ystod 2016-17 a'i ddiweddarau i gynnwys argymhellion.</p> <p>Cyfathrebu gofynion y Polisi Gorfodi, a disgwyliadau yn unol â Chodau Ymarfer a chanllawiau.</p> <p>Cynnal gwaith monitro mewnol rheolaidd i ddilysu cydymffurfiaeth yn yr ardal hon.</p>	Mae'r Polisi Gorfodi wedi'i adolygu a'i ddiweddarau i gynnwys y meini prawf ar gyfer erlyniadau ac i gynnwys cyfeiriad at y cynllun Prif Awdurdod.	Cynnwys y meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi (gan gynnwys hysbysiadau cyfreithiol) a chynnwys cyfeiriad at y cynllun Awdurdod Cartref. Cymeradwyo'r polisi gorfodi diwygiedig.

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer ymweliadau dilynol a champau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]</p>		<p>Mae erlyniad enghreifftiol yn cael ei ddefnyddio sy'n cynnwys rhybuddion ffurfiol, fodd bynnag bydd gweithdrefn benodol yn cael ei hysgrifennu fel yr argymhellir.</p> <p>Bydd pob gweithdrefn arall yn cael eu hadolygu yn unol â'r cynllun adolygu.</p>	<p>Mae gweithdrefnau wedi'u datblygu a'u gweithredu yn cwmpasu cau gwirfoddol, hysbysiadau camau unioni, hysbysiadau gwella, ildio gwirfoddol, rhybuddion ac erlyniadau syml. Mae'r weithdrefn cadw ac atafael wedi'i diwygio i gynnwys trefniadau lleol.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (iii) Sicrhau bod camau gorfodi hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau bod pob penderfyniad ar gamau gorfodi'n cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi mewn unrhyw ffordd. [Y Safon – 15.3 a 15.4]</p>		<p>Bydd y weithdrefn fonitro fewnol yn cael ei hadolygu a'i datblygu i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cynnwys yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol.</p> <p>Cyfathrebu gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod i swyddogion, a chynnal gwaith monitro mewnol yn rheolaidd i ddilysu cydymffurfiaeth</p>	<p>Gwelliannau o ran cau gwirfoddol, wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig gyda datganiad iawndal ac wedi'i godi'n ysgrifenedig.</p> <p>Dim Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni na Rhybuddion Syml wedi'u cyflwyno, felly maent yn parhau heb eu profi'n iawn.</p>	<p>Sicrhau amllder addas o wiriadau i sicrhau nad yw busnes yn gweithredu tra bod cau gwirfoddol yn parhau i fod ar waith.</p> <p>Sicrhau bod cytundebau ildio gwirfoddol yn cynnwys yr amser, y lleoliad a'r dull o ddinistrio'r bwyd. Cynnwys datganiad / cytundeb i'r perchennog dalu'r treuliau rhesymol ar gyfer dinistrio neu waredu'r bwyd.</p> <p>Sicrhau bod penderfyniadau gorfodi pellach mewn cysylltiad â safleoedd sydd wedi'u cau, yn cael eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi mewn unrhyw ffordd.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>16.8 (i) Cynnal cofnodion cywir, wedi'u diweddarau ar ffurf y gellir ei hadfer ar bob sefydliad bwyd perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys gwybodaeth gymeradwyo a chofrestru bwyd, adroddiadau'r holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] (Hylendid Bwyd)</p>		<p>Cyfathrebu'r angen i sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir ar APP yn cael ei hadolygu cyn arolygiadau i wneud yn siŵr bod manylion cofrestru busnesau bwyd wedi'u diweddarau. Bydd hyn yn sicrhau bod llythyrau yn cael eu hanfon i'r pencadlys priodol/cyfeiriad swyddfa cofrestredig.</p> <p>Amserlenni ar gyfer cydymffurfio i'w cynnwys mewn adroddiadau arolygu.</p> <p>Adolygiad o ffeiliau 'Safleoedd Cymeradwy' wedi'u cynllunio ar gyfer 16/17.</p>	<p>Gwelliannau mewn perthynas â manylu ar weithredu dilynol, gan nodi os cymerwyd samplau, y derbynnydd cywir, y cyfeiriad cywir ac adroddiadau'n cael eu llunio mewn modd amserol.</p> <p>Yr holl wybodaeth allweddol ar gael ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy, wedi'i storio'n electronig.</p> <p>Dim cofnodion AES, felly'n parhau heb ei phrofi'n llawn.</p>	<p>Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnes yn cael eu cadw'n gyson, bod ffurflenni cofrestru ar gael ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn cael eu darparu o fewn adroddiadau arolygu.</p> <p>Sicrhau bod lluniau/labeli digidol a dogfennau masnachol yn cynnwys y marc adnabod yn cael eu storio ar ffeiliau safleoedd cymeradwy (lle y bo'n briodol).</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>16.14 (i) Cadw cofnodion safonau bwyd cywir, wedi'u diweddarau ar ffeiliau sefydliadau bwyd gan gynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau swyddogion i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, manylion am gamau gorfodi a gymerwyd lle nodir achosion o ddiffyg cydymffurfio a manylion am unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]</p> <p>(Safonau Bwyd)</p>		<p>Amserlenni ar gyfer cydymffurfio i'w cynnwys o fewn adroddiadau arolygu.</p>	<p>Gwelliannau o ran cadw cofnodion safonau bwyd cywir gan gynnwys cyfraith bwyd y cynhaliwyd yr arolygiad yn unol â hi, manylion cyswllt uwch swyddog, cyfeiriad yr awdurdod bwyd a gwahanu gofynion cyfreithiol ac argymhellion.</p>	<p>Sicrhau bod dogfennau a chofnodion eraill a archwilir yn cael eu cofnodi'n gyson a bod amserlenni ar gyfer cydymffurfio'n cael eu darparu.</p>

Mater i fynd i'r afael ag ef (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)	Statws	Gwelliannau wedi'u cynllunio	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
19.9 (i) Adolygu a chyflwyno'r gweithdrefnau mewnol cofnodedig yn llwyr er mwyn gwella asesiad ansoddol o'r ystod lawn o weithgarwch hylendid a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1]		Er bod gan yr Awdurdod Weithdrefn Fonitro Fewnol eisoes ar waith, bydd hon yn cael ei hadolygu i wella'r asesiad ansoddol a chwmpas ehangach o weithgareddau.	Gweithdrefn Fonitro Fewnol gofnodedig wedi'i hadolygu a'i gweithredu'n rhannol.	Sicrhau bod y weithdrefn fonitro fewnol yn cael ei gweithredu'n llawn i wella asesiad ansoddol yr ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd.
19.9 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2]		Gwneud gwaith monitro mewnol ychwanegol i wirio cydymffurfiaeth.	Mae cwmpas y system fonitro fewnol yn ymgorffori pob gweithgaredd ac elfen.	Wedi'i gwblhau.

Crynodeb.

Cyfanswm yr argymhellion	28
Wedi'i gwblhau	13
Cynnydd da	14
Cynnydd cyfyngedig	1
Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu	0
Yn weddill	15

